Dŵr Cymru
Welsh Water

V2 - Gorffennaf 2025

# Y Rheoliadau Dŵr
# Sut maen nhw'n effeithio ar eich busnes



Dŵr yfed diogel, o safon uchel a dibynadwy bob amser.

## Beth yw'r Rheoliadau?

### Mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 (y Rheoliadau) yn berthnasol i safleoedd sy'n derbyn cyflenwadau dŵr iachus gan Ddŵr Cymru.

Nhw yw'r gofynion cenedlaethol ar gyfer dylunio, gosod a chynnal a chadw systemau plymio, ffitiadau dŵr a theclynnau sy'n defnyddio dŵr ar draws Cymru a Lloegr.

Prif bwrpas y Rheoliadau yw amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy atal gwastraff, camddefnydd, defnydd diangen, mesur gwallus ac yn bwysicach na dim, halogiad y dŵr rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer ein cwsmeriaid.


## Ymhle mae'r Rheoliadau mewn grym?

### Fel rheol, mae'r Rheoliadau mewn grym o'r pwynt lle mae ein cyflenwad yn mynd i mewn i'r bibell sy'n cyflenwi eiddo ein cwsmeriaid hyd at y fan lle mae'n cael ei ddefnyddio trwy dapiau, falfiau a theclynnau.

## Pwy sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau?

### Mae gofyn i'n cwsmeriaid, fel perchnogion neu ddeiliaid yr eiddo rydyn ni'n eu cyflenwi, gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yma.

Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â'r bobl sy'n gosod y ffitiadau dŵr hefyd, sy'n golygu bod gofyn i unrhyw un sy'n gosod neu'n cynnal ffitiadau dŵr sicrhau bod eu gwaith yn bodloni'r gofynion.



## Rôl Dŵr Cymru

Fel eich cyflenwr dŵr, mae dyletswydd ar Ddŵr Cymru i orfodi gofynion y rheoliadau o fewn eich safle.

Mae ein Rheoleiddwyr yn ein harchwilio ni o ran sut rydyn ni'n cyflawni'r rôl yma er mwyn sicrhau bod ein dull o weithredu o ran ein cwsmeriaid yn gyson, yn deg ac yn cyd-fynd â gofynion y Rheoliadau.

Rydyn ni'n cyflawni archwiliadau cynlluniedig ac ymatebol sy'n blaenoriaethu eiddo lle'r ydym ni'n teimlo bod y risg bosibl o halogiad i'r defnyddiwr a'n rhwydwaith cyflenwi dŵr ar ei huchaf. Os oes angen archwilio'ch safle, byddwn ni'n cysylltu â chi ymlaen llaw i drefnu hyn.

Yn Dŵr Cymru, rydyn ni'n falch o roi ein cwsmeriaid yn gyntaf. Os ffeindiwn ni rywbeth sy'n mynd yn groes i ofynion y Rheoliadau, fe wnawn ein gorau glas i weithio gyda'n cwsmeriaid i helpu i wneud pethau'n iawn.

Rydyn ni'n cefnogi ein cwsmeriaid trwy ymgysylltu â nhw am waith plymio a allai fod ar y gweill hefyd. Os byddwch chi'n rhoi gwybod i ni cyn dechrau'r gwaith, gallwn ni gynnig arweiniad i chi a sicrhau bod y gwaith yn cydymffurfio.

**Polisi Gorfodi:** www.dwrcymru.com/CyngorRheoliadauDwr

Mae Dŵr Cymru'n cyhoeddi polisi gorfodi ar ein gwefan lle gallwch ddysgu rhagor am sut rydyn ni'n gweithio gyda'n cwsmeriaid i hyrwyddo cydymffurfiaeth ar draws ein hardal gyflenwi.

## Beth gallwch chi ei wneud i gydymffurfio?

Dydyn ni ddim yn disgwyl i'n holl gwsmeriaid fod yn ymwybodol o ofynion y Rheoliadau, ond gallwch chi chwarae eich rhan.

## Cynnyrch sy'n cydymffurfio

Wrth ystyried prynu ffitiadau ac offer plymio, mae hi'n syniad da sicrhau bod y cynnyrch rydych chi'n ei ddewis o ansawdd a safon briodol bob tro. Dylech ystyried hefyd a yw'r hyn rydych chi am ei osod yn addas ar gyfer yr amodau lle'r ydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio.

Mae'r Rheoliadau'n manylu ar ofynion y ffitiadau dŵr, ac yn darparu rhestr o ffyrdd y gellir profi bod ffitiadau a chynhyrchion yn cydymffurfio. Gelwir hyn yn gydymffurfiaeth â Rheoliad 4.

## Contractwyr cymeradwy

WaterSafe yw'r gofrestr genedlaethol ar gyfer contractwyr cymeradwy, fel plymwyr a gosodwyr pibellau cyflenwi dŵr. Bydd cymwysterau cydnabyddedig ac yswiriant gan yr Aelodau, sy'n golygu y gallwch fod yn hyderus y caiff y gwaith ei gyflawni'n gywir gyda'r amddiffyniadau cywir.

Mae plymwyr sy'n aelodau o'r cynlluniau hyn yn cael eu harchwilio gan Ddŵr Cymru'n gyson er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn cydymffurfio.

Mae aelodau WaterSafe wedi eu heithrio rhag gorfod ein hysbysu ymlaen llaw am rai mathau o waith. Fel arall, byddai angen ein hysbysu ni am y gwaith, a chael ein caniatâd ymlaen llaw. Bydd contractwr cymeradwy yn darparu tystysgrif ar eich cyfer sy'n nodi bod eu gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Gallwch ddod o hyd i gontractwr cymeradwy lleol trwy fynd i'n gwefan yn **dwrcymru.com** a defnyddio bar chwilio hwylus WaterSafe ar ein tudalen hafan.

## Hysbysu

Mae hi'n ofynnol ein hysbysu ni am sawl math o waith plymio cyn y gellir dechrau'r gwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y cyflenwad dŵr yfed yn ddiogel bob tro. Rydyn ni'n adolygu'r hysbysiadau sy'n cael eu hanfon atom, a gallwn bennu amodau ar unrhyw waith gosod lle bo hynny'n briodol.

Mae'r tabl isod yn cynnwys rhestr o'r gwaith sy'n gofyn am hysbysiad ymlaen llaw

| Tabl o'r gwaith y mae angen hysbysiad yn ei gylch |
|---|
| 1. Codi adeilad neu strwythur arall, heb fod yn bwll neu'n bwll nofio. |
| **2. Ehangu neu ddiwygio system dŵr ar unrhyw safle arall nad yw'n dŷ annedd.** |
| 3. Newid defnydd materol ar unrhyw safle. |
| 4. Gosod:<br>a) Bath â chapasiti o dros 230 litr wedi ei fesur i linell ganol y gorlif;<br>**b) Bidet sy'n chwistrellu am i fyny neu â phibell hyblyg;**<br>c) Uned cawod sengl (a all gynnwys un pen cawod neu ragor o fewn uned sengl), heb fod yn gawod drensio sydd wedi ei osod am resymau diogelwch neu iechyd, sydd wedi ei chysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phibell gyflenwi o fath y mae'r rheoleiddiwr yn ei bennu;<br>d) Pwmp neu gyfnerthydd sy'n tynnu mwy na 12 litr y funud, sy'n cysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phibell gyflenwi;<br>e) Uned sy'n ymgorffori gwrthosmosis;<br>f) Uned trin dŵr sy'n cynhyrchu gwastraff dŵr i'w ryddhau, neu sydd angen defnyddio dŵr at ddibenion adfywio neu lanhau;<br>g) Cydosodiad â falf parth pwysedd is neu ddyfais fecanyddol arall i amddiffyn rhag hylif sydd yng nghategori hylif 4 neu 5;<br>h) System dyfrio gardd oni bai ei bod wedi ei dylunio i'w gweithredu â llaw; neu<br>i) Unrhyw system dŵr sy'n cael ei gosod y tu allan i adeilad ac sydd naill ai'n llai na 750mm neu'n fwy na 1350mm islaw lefel y ddaear. |
| 5. Adeiladu pwll neu bwll nofio â capasiti o fwy na 10,000 litr a ddyluniwyd i gael ei adlenwi trwy ddulliau awtomataidd ac y bwriedir iddo gael ei lenwi gan ddŵr sy'n cael ei gyflenwi gan ymgymerydd dŵr. |

Cofiwch, mae rhai mathau o waith wedi eu heithrio o'r gofyniad i hysbysu os ydych chi'n defnyddio contractwr cymeradwy, fel plymwr rhestredig WaterSafe.

**Mae methu â hysbysu am y gwaith uchod yn drosedd o dan y Rheoliadau.**

**Gallwch ddysgu rhagor am hysbysu a sut i'n hysbysu ni trwy fynd i to dwrcymru.com/hysbysu**

## Categorïau hylif - deall y risg

### Mae risg fesul Categori Hylif yn cael ei briodoli i ffitiadau dŵr a halogyddion hysbys. Mae'r Categori Hylif yn dangos lefel y risg i'r cyflenwad dŵr yfed a'r rhwydwaith ehangach mewn digwyddiad halogi.

Fel y byddech yn ei ddisgwyl, po uchaf fo'r categori, po uchaf yw lefel y risg. Categori Hylif 1 yw'r categori a roddir i'r dŵr iachus rydyn ni'n ei gyflenwi, ac mae risgiau Categori Hylif 5 yn cynnwys pethau fel gwastraff anifeiliaid neu sylweddau gwenwynig iawn a allai effeithio ar brosesau dŵr.

Priodolir trefniadau amddiffyn rhag adlif penodol i bob un o'r categorïau hyn, neu declynnau y mae angen eu gosod er mwyn amddiffyn y cyflenwad dŵr rhag halogiad posibl.

Rydyn ni wedi cael arweiniad gan ein Rheoleiddiwr i'n helpu ni i bennu lefel risg gwahanol fathau o brosesau neu osodiadau mewn ffordd gyson. Mae detholiad o'r rhain isod:

**Hylif Categori 1**
Dŵr iachus, sy'n cael ei gyflenwi'n uniongyrchol o brif bibell ymgymerydd dŵr. Rhaid i hyn gydymffurfio â gofynion y rheoliadau a wneir o dan adran 67 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**Hylif Categori 2**

- Cymysgu cyflenwadau dŵr poeth ac oer
- Systemau taenellwyr tân (heb wrthrewyddion)
- Peiriannau diodydd lle nad oes unrhyw gynhwysion neu garbon deuocsid yn cael eu chwistrellu i'r cyflenwad neu'r bibell ddosbarthu
- Peiriannau iâ

**Hylif Categori 3**

- Peiriannau diodydd lle mae cynhwysion neu garbon deuocsid yn cael eu chwistrellu i mewn
- Peiriannau meddalu masnachol (halen cyffredin yn unig)

**Hylif Categori 4**

- Systemau taenellwyr tân sy'n defnyddio gwrthrewyddion
- Offer oeri
- Offer bragu a distyllu
- Offer diheintio diwydiannol
- Peiriannau golchi dillad masnachol

**Hylif Categori 5**

- Systemau ailgylchu dŵr llwyd
- Sinciau, wrinalau, toiledau a bidets
- Labordai
- Peiriannau diwydiannol a chemegol ac ati
- Peiriannau golchi dillad masnachol ar safleoedd gofal iechyd
- Peiriannau golchi llestri ar safleoedd gofal iechyd
- Storfeydd dŵr at ddibenion diffodd tân

## Pethau i'w nodi yn eich system blymio

I'ch helpu chi i feddwl am y risgiau sy'n bresennol yn y rhan fwyaf o systemau plymio, rydyn ni wedi tynnu sylw at rai o'r ardaloedd allweddol lle rydyn ni'n dod ar draws diffyg cydymffurfiaeth ar safleoedd ein cwsmeriaid.




### 1. Amddiffyniad Rhag Adlif

Mae angen amddiffyniad rhag adlif nid yn unig er mwyn amddiffyn ein cyflenwad dŵr o'r brif bibell rhag gorlifo i mewn i'r eiddo, ond hefyd er mwyn amddiffyn y dŵr o fewn y system blymio fel ei fod yn parhau i fod yn addas i'r defnyddiwr ei yfed a'i ddefnyddio at ddibenion hylendid.


Un ffordd o sicrhau hyn yw gosod amddiffyniad rhag adlif fesul parth ar y cyflenwad i unrhyw ardaloedd prosesu mewn eiddo, neu ar borthiant ardaloedd lle mae dŵr yn cael ei ddefnyddio at ddibenion lle nad oes angen iddo fod yn iachus. Esiampl o hyn fyddai gosod seston storio bwrpasol â bwlch aer priodol i fwydo unrhyw offer golchi.

### 2. Tapiau Uno Pibellau


Mae'r risg bosibl o dap uno pibellau yn amrywio yn dibynnu ar gategori hylif unrhyw hylifau y mae'n dod i gysylltiad â nhw. Er enghraifft, ystyrir bod tap uno pibellau sy'n cael ei ddefnyddio i olchi biniau neu ardaloedd gwastraff yn risg categori hylif 5.

Mae'r ddelwedd isod yn dangos beth y mae'r risg Categori Hylif yn ei olygu o ran y mathau o amddiffyniad rhag adlif sydd ei angen.

**Risg**



**Awgrym** Defnyddiwch glipiau cynnal neu bibell ddyfrio ar rîl sy'n ei dynnu ei hun yn ôl i  ddiogelu'r bibell a'i hamddiffyn rhag ymsuddo neu gael ei halogi unrhyw beth sydd gerllaw.



**Ni ddylid byth gadael pibellau dan ddŵr mewn bwcedi, sinciau, draeniau nac yn gorwedd ar y llawr.**

## 3. Peiriannau

Yn yr un modd â thapiau uno pibellau, gall lefel y risg o gyfarpar, fel peiriannau golchi llestri a dillad, amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar eu defnydd terfynol.

Bydd gan rai teclynnau masnachol yr amddiffyniad angenrheidiol rhag adlif eisoes yn rhan o'u dyluniad. Cofiwch, mae angen ein hysbysu cyn gosod teclyn newydd, fel y gallwn roi gwybod i chi pa lefel o amddiffyniad sydd ei angen. Hyd yn oed os ydych chi'n gosod teclyn newydd yn lle un arall, mae hi'n bwysig eich bod chi'n holi eich cyflenwr i sicrhau bod ganddo'r amddiffyniad angenrheidiol rhag adlif i'w ddefnyddio ar eich safle.

Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â ni. Byddwn ni'n ystyried unrhyw dystiolaeth o gydymffurfiaeth a ddarperir am gynnyrch penodol, ac yn cynghori a yw hynny addas ai peidio.

## 4. Systemau Cylch Caeedig

Ystyrir bod systemau cylch caeedig, fel systemau gwres canolog mewn safleoedd annomestig, yn risg Categori Hylif 4. Gellir cyflenwi'r systemau hyn gan ddefnyddio unedau pwyseddu, sy'n dueddol o fod yn ateb effeithiol sy'n cynnig y lefel briodol o amddiffyniad rhag adlif.

Rydyn ni'n dueddol o weld falfiau Parth Pwysedd Is (RPZ) yn cael eu defnyddio fel ffitiadau i ddarparu ateb ategu ar lein hefyd. Dyfeisiau mecanyddol yw falfiau RPZ sy'n gallu darparu amddiffyniad digonol rhag adlif hyd at risg Categori Hylif 4. Rhaid gosod y dyfeisiau hyn, eu comisiynu a'u profi o leiaf unwaith y flwyddyn yn gyson â Nod RPZ yr Ymgymerwyr Dŵr.

Dylid ystyried y costau hyn a chyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r ffitiadau hyn yn barhaus wrth benderfynu gosod falf RPZ.

Mae rhagor o fanylion am falfiau RPZ yn:
**https://www.dwrcymru.com/cymorth-cyngor/rheoliadau-dwr/falfiau-parth-pwysedd-is-rpz-falfiau**

## 5. Canghennau Segur

Canghennau Segur yw un o'r diffygion mwyaf cyffredin y gwelwn ni mewn systemau plymio sydd eisoes yn eu lle. Mae hyn yn digwydd pan nad yw darnau o bibellwaith yn cael eu defnyddio mwyach neu'n cael eu capio yn hytrach na'u tynnu.


Mae'r dŵr yn y gangen segur yn gallu troi'n ferddwr, lle mae micro-organebau'n gallu tyfu a chael eu tynnu nôl i mewn i'ch system blymio pan fo lefel y pwysedd yn disgyn.

Mae hi'n rhwydd osgoi canghennau segur ar bibellwaith. Os nad yw'r pibellwaith a'r ffitiadau'n cael eu defnyddio, tynnwch nhw a'u holrhain yn ôl i'r gangen y maent yn dolennu ohoni. Os oes darnau o bibellwaith gennych y mae angen eu cadw ond nad ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, sicrhewch fod modd eu hynysu a'u draenio trwy gyfnodau pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

## 6. Cawodydd

Os oes cawodydd gennych yn eich busnes, mae hi'n bwysig sicrhau na ellir gadael yr allfeydd dan ddŵr neu ar lawr unrhyw gawodydd.

Lle bo'n ymarferol, rydyn ni'n argymell defnyddio pen cawod sefydlog heb bibell hyblyg. Os oes angen pibell, dylai gael ei chwtogi neu ei ffrwyno'n barhaol fel nad oes modd ei gadael mewn ardal lle mae risg o ôl-seiffno.



## Sut mae cael rhagor o fanylion?

Cwmni sy'n cyhoeddi arweiniad a chynghorion ar ofynion y Rheoliadau yw Water Regs UK.

Mae eu gwefan yn cynnwys nifer o ddogfennau defnyddiol sydd ar gael am ddim i geisio ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Gallwch ddarllen y rhain trwy fynd i **www.waterregsuk.co.uk**

## Cysylltu â

Os oes unrhyw gwestiynau gennych am osodiad penodol neu rywbeth sy'n gysylltiedig â sut rydyn ni'n gorfodi'r Rheoliadau, y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â ni'n uniongyrchol.

Mae rhywfaint o wybodaeth am y Rheoliadau ar ein gwefan, sydd ar gael trwy sganio'r cod QR isod neu trwy fynd i: www.dwrcymru.com/rheoliadau-dwr

Gallwch gysylltu â'n tîm Rheoliadau Dŵr trwy e-bostio: waterregulations@dwrcymru.com neu ein ffonio ni ar 01792 841 572.